

'Stwff angenrheidiol': anghenion gofal cymdeithasol plant ag anghenion iechyd cymhleth a'u teuluoedd

'Stwff angenrheidiol': anghenion gofal cymdeithasol plant ag anghenion gofal iechyd cymhleth a'u teuluoedd

Bwriad yr adolygiad gwybodaeth hwn oedd darganfod yr hyn a wyddys am anghenion gofal cymdeithasol plant sydd ag anghenion gofal iechyd cymhleth (AGIC) a'u teuluoedd, ac am y gwasanaethau sydd wedi eu cynllunio i gwrdd â'r anghenion hynny.

Roedd gan yr adolygiad dair rhan benodol:

ymgyngoriad gyda phlant AGIC a'u teuluoedd
adolygiad o ymchwil berthnasol
arolwg i ddarganfod enghreifftiau o ymarfer da wrth ddarparu
gwasanaethau.

Nid oes cytundeb ymhlith gwneuthurwyr polisi ac ymarferyddion proffesiynol ynghylch union ystyr 'gofal iechyd cymhleth'. At ddibenion yr adolygiad hwn, roedd y term yn disgrifio plant sydd yn anabl, plant gydag anghenion addysgol arbennig a phlant â chyflyrau sy'n byrhau neu beryglu eu bywyd. Roedd y diffiniad yn ddigon hyblyg i gynnwys y posibilrwydd y gallai'r cyflyrau hyn i gyd effeithio ar rai plant, ac na fyddai'r un o'r categorïau uchod yn gweddu i eraill ohonynt.

Mae'r astudiaeth hon wedi cyfrannu at y sylfaen wybodaeth gynyddol sydd ar gael, drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau plant a phobl ifainc ag AGIC a'u teuluoedd. Tra bo'r astudiaeth yn cefnogi rhai agweddu ar bolisi ac ymarfer cyfredol, mae'n tynnu sylw at rai sialensau newydd ac yn awgrymu fod rhai materion yn cael eu diystyru ar hyn o bryd.

Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr

Gwnaed ymdrech lew i sicrhau fod diffiniadau, disgwyliadau a phrofiadau plant a phobl ifainc ag AGIC wrth galon yr adolygiad - mae ymchwil yn y maes hwn mor belled wedi tueddu i ganolbwyntio ar farn rhieni.

Datblygwyd y fethodoleg ar y cyd rhwng y tîm adolygu a'r Grwp Cynghori aml-ddisgyblaeth, oedd yn cynnwys plant a phobl ifainc ag AGIC a'u rhieni fel ymchwilwyr. Roedd un o aelodau'r grwp craidd hefyd yn berson ifanc gydag AGIC.

Trefnwyd yr ymgynghoriad yn benodol i alluogi ymchwiliad agored i 'anghenion gofal cymdeithasol' ac ymarfer da, o safbwynt plant a phobl ifainc ag AGIC, yn ogystal â'u teuluoedd a ffrindiau.

Roedd gan y _5 teulu yn yr adolygiad 68 o blant rhyngddynt; roedd gan _5 o'r plant hyn AGIC a chyfrannodd _8 yn uniongyrchol. Roedden nhw'n amrywio mewn oed o ddwy i _4. Roedd gan y rhan fwyaf ohonynt gyflyrau iechyd lluosog. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu ac roedd chwech yn llwyr ddibynnol ar gyfathrebu an-llafar.

Cyfrannodd un ar ddeg o frodyr a chwiorydd a saith o berthnasau a ffrindiau eraill hefyd.

Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd o'r ymgynghoriad i ddiffinio nodweddion yr 'ymarfer da' yr oedd yr arolwg ymarfer am ei ddisgrifio.

Ailfeddl anghenion; gofalu am y 'stwmff angenrheidiol'

Mae'r canfyddiad canolog yn herio sylfeini'r ddarpariaeth ac ymarfer cyfredol. Mae llawer o ymchwil, polisi a chanllawiau wedi eu seilio ar y gred y gellir gwahanu anghenion iechyd, cymdeithasol neu addysgol oddi wrth ei gilydd ac y gall asiantaethau gwahanol ddarparu'r gwasanaethau unigol. Roedd yr adolygiad ymchwil a'r ymgynghoriad, fodd bynnag, yn dangos yn glir nad yw profiadau plant a phobl ifainc ag AGIC a'u teuluoedd yn cefnogi'r gred hon. Mae eu hanghenion gofal iechyd yn rhan o fywyd beunyddiol iddyn nhw, ac yn annatod ynghlwm wrth eu hanghenion eraill. Mae angen felly fwy o hyblygrwydd wrth ddifnio'r ffiniau a'r rôliau proffesiynol er mwyn mynd i'r afael â'r 'stwmff angenrheidiol'.

Nid yw'r adolygiad gwybodaeth hwn wedi datrys yr anawsterau diffino hyn, ond mae'n glir fod angen gwaith pellach ar y ffordd y defnyddir y termau 'bywyd cyffredin' ac 'anghenion cyffredin' sydd wrth wraidd gwasanaethau.

Canfyddiadau allweddol o'r arolwg ymarfer

Nodwyd llawer o enghreifftiau o 'ymarfer da' gan ymarferyddion proffesiynol a gweithwyr gofal cyflogedig, sy'n dangos ei bod yn bosibl cwrdd ag anghenion plant a phobl ifainc ag AGIC a'u teuluoedd heb amharu'n ormodol ar eu bywydau 'cyffredin'. Yn ôl plant a phobl ifainc ag AGIC a'u teuluoedd, mae ymarfer da mewn darpariaeth yn:

- hyblyg ac yn gallu ymateb i anghenion unigryw teuluoedd gwahanol
- amddiffyn bywydau ac anghenion 'cyffredin'
- cydweithio gyda theuluoedd, ac yn gwerthfawrogi eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u profiad
- gweithio gyda rhwydweithiau ehangach, yn cynnwys teuluoedd, ffrinidau, gwasanaethau eraill.

Soniwyd am wyth gwasanaeth sy'n gweithredu'r ymarfer da hwn. Roedd nodweddion cyffredin rhyngddynt:

- yn cydnabod fod teuluoedd yn arbenigwyr
- yn cydnabod y plentyn a'r teulu fel partneriaid pan yn diffinio anghenion
- yn parchu perthnasau unigol
- yn adnabod a derbyn gwahanol agweddau ar hunaniaeth plentyn a theulu
- yn rhoi annibyniaeth i staff ar y talcen caled
- â'r gallu i fod yn hyblyg ac ymateb i amgylchiadau
- yn defnyddio termau fel 'llywio', 'eirioli', 'cydweithio', 'canfod ffordd' ac ati wrth ddiffinio eu gwasanaeth
- yn defnyddio gwirfoddolwyr yn greadigol o fewn cynlluniau.

Roedd yr arolwg hefyd yn tynnu sylw at anawsterau cyffredin a wynebwyd gan y cyfranwyr wrth iddyn nhw drïo ffyrdd newydd o ddarparu a defnyddio gwasanaethau.

Gwaith gofal cymdeithasol anweledig

Roedd bwlch rhwng gorchwyl gwaith ffurfiol darparwyr a'r gwasanaethau yr oedden nhw yn eu darparu mewn gwirionedd. Roedd hyn yn golygu nad oedd anghenion gofal cymdeithasol na gwasanaethau yn cael eu cydnabod. O ganlyniad, roedd rôliau ffurfiol staff yn eu cyfyngu. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw 'dorri rheolau' er mwyn ymateb yn hyblyg i anghenion teuluoedd. Mae angen i gynllunwyr, comisiynwyr a rheolwyr sicrhau fod y gwasanaethau a ddarperir yn adlewyrchu yn well yr hyn y dylai eu gwasanaethau ei gyflawni. Mae angen iddynt sicrhau fod rôliau eu staff yn ddigonol i gyflawni eu cylch gorchwyl.

Pwer a chyfrifoldeb mewn trefniadau comisiynu

Rhwystr arall a ganfuwyd oedd y trefniadau comisiynu sydd ar waith ar hyn o bryd, a chytundebau sy'n canolbwyntio ar faes cul iawn o anghenion, rhai clinigol fel arfer. Roedd hyn yn arwain at sefyllfa lle roedd anghenion a darpariaeth gofal cymdeithasol yn aml yn cael eu hanwybyddu ac yn ei gwneud yn anodd iawn i wasanaethau sicrhau cydbwysedd. Mae angen i gynllunwyr a chomisiynwyr ystyried sut gellir comisiynu gwasanaethau sy'n hyblyg ac yn ymatebol. Mae angen iddynt fod yn glir eu meddwl ynghylch pa ran o'r broses gomisiynu sy'n gyfrifol am ddatblygu gwasanaethau. Mae hefyd angen sicrhau dulliau adborth, er mwyn i gomisiynwyr allu dysgu gan ddarparwyr gwasanaeth a gwella'r ddarpariaeth.

Cysondeb trefniadau cyllido

Rhwystr arall oedd natur byr dymor y trefniadau cyllido. Roedd hyn yn effeithio ar gysondeb darpariaeth ac yn ei gwneud hi'n anodd dod i adnabod yr ymarferyddion proffesiynol sydd mor bwysig i deuluoedd. Mae angen i gynllunwyr a chomisiynwyr ystyried ffyrdd creadigol o ddarparu gwasanaethau mwy hir dymor i blant a phobl ifainc ag AGIC a'u teuluoedd.

Canfyddiadau allweddol o'r ymchwil ac ymgynghoriad

Yr hyn sydd bwysicaf

Mae gan blant a phobl ifainc ag AGIC yr un dyheadau ac anghenion â phlant eraill. Yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw yw eu bod yn gallu byw gartref, mynd i'r ysgol, treulio amser gyda ffrindiau a chyfrannu at weithgareddau hamdden a chymunedol gyda chyfeillion a theulu. Mae hyn hefyd yn bwysig i'w teuluoedd. Mae blaenoriaethau eraill sydd gan blant a'u teuluoedd yn cynnwys:

Materion ymarferol, fel mynediad i gyfleusterau, cael gafael ar declynnau addas a sicrhau'r cyllid angenrheidiol

Gallu clinigol a threfnyddol staff sydd yn cael eu cyflogi i ddarparu agweddau ar ofal sydd angen sgiliau arbenigol.

Mae angen sicrhau fod y blaenoriaethau hynny yn cael eu hadlewyrchu mewn canllawiau ac mewn ymarfer.

Meddylfryd â'r teulu yn ganolog iddo

Mae'r canfyddiadau yn cadarnhau fod angen meddylfryd sydd â'r teulu yn ganolog iddo, meddylfryd sy'n ystyried anghenion pob aelod o'r teulu, yn cynnwys brodyr a chwiorydd, fel unigolion ac fel uned. Mae tensiwn annatod rhwng ymarfer sydd â'r plentyn yn ganolog iddo ac ymarfer sydd â'r teulu yn ganolog iddo, fodd bynnag, yn enwedig pan fo anghenion brodyr a chwiorydd yn gwrthdaro. Mae angen ymchwilio i hyn yn bellach, er mwyn darparu enghreifftiau o ymarfer da i ddarparwyr.

Mae'r arfer presennol o ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifainc penodol yn hytrach nag i'r teulu cyfan, yn golygu nad yw plant a phobl ifainc ag AGIC yn gallu mwynhau chwarae, treulio amser hamdden a chael gofal plant gyda'u brodyr a chwiorydd. Mae angen i ddarparwyr ystyried newid y cyfyngiadau hyn wrth benderfynu ar ddarpariaeth.

Y gallu i fod yn hyblyg ac ymateb

Mae teuluoedd yn ystyried parodrwydd i fod yn hyblyg ac ymateb i wahanol amgylchiadau yn bwysig, yn cynnwys:

rheolaeth a mynediad uniongyrchol i wasanaethau
ble a phryd y dylid darparu gwasanaethau angenrheidiol
gallu ymgorffori digwyddiadau, blaenoriaethau ac argyfyngau teuluol.

Mae angen i ddarparwyr ystyried sut i sicrhau'r gallu hwn i fod yn hyblyg ac ymatebol oddi fewn i gynlluniau gofal o'r cychwyn cyntaf, a sut gall sefydliadau gefnogi'r

hyblygrwydd hwn.

Mae ar ymarferyddion angen hyblygrwydd wrth benderfynu ar eu rôliau a chyfrifoldebau, fel eu bod yn gallu ymateb yn addas. Mae trefnyddiaeth gwasanaethau ar hyn o bryd, fodd bynnag, yn dueddol o atgyfnerthu ffiniau. Mae angen i ddarparwyr ystyried sut gallan nhw addasu rôliau proffesiynol i ganiatau hyblygrywdd a sicrhau fod staff yn cael eu hyfforddi yn ddigonol i gyrraedd y lefel a'r amrediad o sgiliau sydd eu hangen.

Roedd polisïau annigonol neu amherthnasol, hyfforddiant staff a diffyg cefnogaeth yn ei gwneud hi'n anodd bod yn hyblyg ac i ddeall cyfrifoldebau staff ac i bwy yr oeddent yn atebol. Mae angen i sefydliadau fynd i'r afael â'r materion hyn ac i'w hystyried wrth lunio pob cynllun unigol.

Dull ac arddull darpariaeth

Mae tystiolaeth gadarn bod y ffordd y darperir gwasanaeth yr un mor bwyisg â'r gwasanaeth ei hun. Mae perthnasau cyfeillgar a chefnogol yn rhoi cefnogaeth emosïynol i rieni. Mae angen i sefydliadau gadw agweddau rhyng-bersonol y ddarpariaeth mewn cof a chefnogi staff i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol yn hyn o beth.

Cysondeb gwasanaethau

Mae teuluoedd yn gwerthfawrogi gwasanaethau y gellir dibynnu arnynt am gyfnodau hirach, yn ogystal â gwasanaethau sy'n gallu ymateb yn gyflym pan fo argyfwng. Maen nhw am gael gwasanaethau sy'n parhau - hyd yn oed pan fo anghenion eu plentyn yn newid - yn hytrach na gorfod newid y tîm neu'r gwasanaeth. Mae cysondeb fel hyn mewn darpariaeth yn galluogi teuluoedd i ddod i adnabod ymarferyddion proffesiynol a gofalwyr. Mae'r drefn bresennol o ystyried darpariaeth yn y byr dymor yn gwneud y cysondeb hwn yn anodd ei sicrhau. Mae angen i gynllunwyr a chomisiynwyr ystyried dulliau creadigol o sicrhau darpariaeth fwy hir dymor.

Ansawdd y broses

Mae teuluoedd yn dal i gael profiadau rhwystredig a digalon wrth ymwneud â gwasanaethau, yn hytrach na chefnogaeth a chynhaliath. Roedd geiriau fel 'brwydro' ac 'ymladd' yn cael eu defnyddio'n aml. Mae teuluoedd yn sôn am 'fynd i'r afael â'r system'. Mae angen i wasanaethau amddiffyn ansawdd y broses ei hun, a sicrhau fod systemau ar gael i hwyluso trafodaeth pan fo angytuno yn digwydd.

Gweithwyr allweddol

Mae arwyddion fod teuluoedd yn elwa o gynllunio unedig a'r syniad o gael gweithiwr allweddol. Mae hyn yn gallu rhyddhau'r teuluoedd o fwrn y gwaith cydlynu. Mae angen i wasanaethau ofalu, fodd bynnag, nad yw'r gweithiwr allweddol yn gwneud gormod o benderfyniadau heb y teulu, a neilltuo'r teulu o'r broses.

Mae angen ystyried yn bellach y galluoedd sydd eu hangen ar staff sy'n weithwyr allweddol gyda plant a phobl ifainc ag AGIC a'u teuluoedd, oherwydd cymhlethdod y system wasanaeth ei hun ac anghenion teuluoedd. Mae angen i sefydliadau

ystyried sut gallan nhw ymateb i anghenion emosiynol teuluoedd, yn ogystal â'u hanghenion beunyddiol.

Yn olaf, ni ddylai pwyslais ar weithwyr allweddol dynnu sylw oddi ar yr anawsterau systemig hynny nad yw gweithwyr allweddol yn gallu eu datrys, yn cynnwys ffynonellau cyllido cymhleth, cyfrifoldebau statudol, penderfyniadau ar bwy sydd â hawl i ba wasanaeth a gwahaniaethau daearyddol yn y gwasanaethau.

Ionawr 2008

'Stwff angenrheidiol': anghenion gofal cymdeithasol plant ag anghenion iechyd cymhleth a'u teuluoedd

Mae'r adolygiad gwybodaeth llawn ar gael ar ein safle gwe.

Mae holl gyhoeddiadau ac adnoddau SCIE ar gael yn rhad ac am ddim.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol ar gais.

Social Care Institute for Excellence Goldings House, 2 Hay's Lane London SE1 2HB
Ffôn 020 7089 6840 Ffacs 020 7089 6841 Ffôn testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk

Elusen gofrestredig rhif 1092778 Cwmni cofrestredig rhif 4289790

